# Cyngor Sir

Man Cyfarfod
**Siambr y Cyngor – Neuadd y Sir, Llandrindod**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Iau, 11 Gorffennaf 2019**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**


Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk


Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

## AGENDA

| 1. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 2. | COFNODION |
|---|---|

Awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 21 Chwefror, 7 Mawrth, 3 Mai a 16 Mai 2019 fel cofnodion cywir.
(Tudalennau 1 - 118)

| 3. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB |
|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau yn ymwneud ag eitemau i'w hystyried ar yr agenda.

| 4. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan Gadeirydd y Cyngor.

| 5. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

| 6. | BRIFF GAN Y PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Derbyn briff gan y Prif Weithredwr.

| 7. | CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD |
|---|---|

7.1. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Cyllid, Cefn Gwlad a Thrafnidiaeth gan Mr Jeremy Thorp**

Yn ystod cyfarfod y cyngor llawn ar 24 Ionawr 2019, derbyniwyd cynnig gan y cyngor (eitem 13.2) dan y teitl Calon Werdd Cymru.

A allech chi roi gwybod i mi:

a) Pa gynnydd sydd wedi bod ac yn benodol gydag eitemau 6 a 7 o dan y cynnig hwn (wedi'u hailadrodd isod) ac yn benodol, pa adnoddau ydych chi wedi dyrannu i'w ysgrifennu a pha ddyddiad sydd wedi cael ei bennu ar gyfer cwblhau'r strategaeth hon.

*Cynnig 13.2, eitemau 6 a 7*
*6. Y dylai'r awdurdod roi strategaeth ar waith sy'n ymarferol yn economaidd i leihau ei allbwn carbon ac ymdrechu i ddatblygu arfer amgylcheddol gorau yn ei adeiladau*

*7. Y dylai'r awdurdod edrych ar arfer gorau o awdurdodau eraill megis robinhoodenergy.co.uk gyda Chyngor Swydd Nottingham a theleccy.co.uk/about/ gyda Chyngor Dinas Lerpwl, nid yn unig gyda datblygu cadwyni perchen a chyflenwi ynni lleol ond hefyd wrth fynd i'r afael gyda thlodi tanwydd.*

b) Pa aelod portffolio sy'n gyfrifol am weithredu'r cynnig hwn.
(Tudalennau 119 - 122)

7.2. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion yr Economi a Chynllunio gan Dr Christine Hugh-Jones**

Yn ôl bob tebyg, mae'r Adran Gynllunio yn rhoi ar waith gweithdrefnau 'di-bapur' newydd ar gyfer delio â dogfennau sy'n cael eu derbyn oddi wrth ymgeiswyr, ymgynghorwyr statudol, grwpiau rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Ar yr un pryd, nid yw sylwadau gan y cyhoedd a sefydliadau rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys ar y porth cynllunio fel y maen nhw ar gyfer nifer o awdurdodau lleol eraill.

Mae’r gweithdrefnau presennol yn cuddio’n effeithiol wybodaeth o’r cyhoedd sy’n berthnasol i benderfyniadau cynllunio. Mae hyn yn codi pryderon difrifol am atebolrwydd cyhoeddus a chyfleoedd y cyhoedd i gyfrannu i’r broses gynllunio.

Pa gamau brys mae’r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod yr holl ddogfennau cynllunio perthnasol, yn cynnwys ymatebion gan y cyhoedd i ymgynghoriadau cynllunio, ar gael i’w gweld gan y cyhoedd ar y porth cynllunio a sut bydd y Cyngor yn cysylltu â’r cyhoedd i gyflawni hyn?

(Tudalennau 123 - 124)

7.3. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion yr Economi a Chynllunio gan Mr Nigel Dodman**

A ddylai Adran Gynllunio Powys diddymu’r Amodau Cynllunio cyn-dechrau (ar gyfer Fferm Wynt Hendy) pan nad ydynt wedi gweld y cynlluniau llawn o’r hyn mae’r datblygwr yn bwriadu ei adeiladu?
(Tudalennau 125 - 126)

| 8. | GWELEDIGAETH 2025 DRAFFT DIWEDDARIAD Y CYNLLUN GWELLA CORFFORAETHOL AC ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2019 |
|---|---|

Derbyn ac ystyried y Weledigaeth 2025 Drafft Diweddariad y Cynllun Gwella Corfforaethol ac Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2019.
(Tudalennau 127 - 204)

| 9. | ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL |
|---|---|

Derbyn ac ystyried adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2018/19.
(Tudalennau 205 - 270)

| 10. | ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A SGILIAU MAI 2018 - MAI 2019 |
|---|---|

Derbyn ac ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Dysgu a Sgiliau ar gyfer 2018/19
(Tudalennau 271 - 312)

| 11. | LWFANSAU A THREULIAU AELODAU 2018/19 |
|---|---|

Ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid.
(Tudalennau 313 - 318)

| 12. | TROSGLWYDDIADAU I GARIO YMLAEN CYLLIDEBAU HEB EU DYRANNU O'R FLWYDDYN ARIANNOL 2018/19 I 2019/20 |
|---|---|

Ystyried trosglwyddiadau ar gyfer cynlluniau cyfalaf sydd ar y gweill y tu hwnt i £500,000 oedd heb eu cwblhau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2018/19 i gario ymlaen i 2019/20.
(Tudalennau 319 - 322)

| 13. | ARGYMHELLION GAN Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |
|---|---|

Ystyried argymhellion gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

13.1. **Cwestiynau i'r Cyngor Sir gan y Cyhoedd**

(Tudalennau 323 - 326)

13.2. **Canllawiau Diogelwch Personol**

(Tudalennau 327 - 342)

| 14. | PENODIADAU I BWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL GAN GRWPIAU GWLEIDYDDOL SYDD ANGEN EU CYMERADWYO GAN Y SWYDDOG MONITRO |
|---|---|

Nodi'r penodiadau canlynol ar gyrff allanol a wnaed gan grwpiau gwleidyddol a chymeradwywyd gan y Swyddog Monitro o dan y pwer cyffredinol o ddirprwyo a roddwyd gan y Cyngor ar 16 Mai 2013:

Penodwyd y Cynghorydd Sir Mark Barnes i'r Pwyllgor Craffu Economi, Trigolion, Cymunedau a Llywodraethu gan y Grwp Ceidwadol.

| 15. | RHYBUDD O GYNNIG - CYFIAWNDER BWYD |
|---|---|

**Mae'r Cyngor hwn yn nodi bod:**

1. 8 miliwn o bobl yn y DU yn cael trafferth rhoi bwyd ar y bwrdd yn ôl y Cenhedleoedd Unedig;

2. dros 500,000 o bobl wedi defnyddio banciau bwyd yn y DU y llynedd. Dosbarthodd yr Ymddiriedolaeth Trussell ei hun dros 1.3m o gyflenwadau bwyd brys am dri diwrnod i bobl mewn argyfwng yn ystod y flwyddyn ariannol 2017-2018;

3. 3 miliwn o blant mewn perygl o newyn yn ystod gwyliau'r ysgol;

4. hyd at 1 miliwn o bobl yn byw mewn anialwch bwyd yn y DU;

5. swm sylweddol o gyllideb y GIG yn cael ei wario ar drin diabetes.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi ymrwymiad Llywodraeth y DU i 17 Nod Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (Nodau Byd-eang) sy'n ymrwymo'r llywodraeth i ddod â newyn i ben erbyn 2030.

**Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:**

1. sefydlu rôl aelod arweiniol gyda chyfrifoldeb am ddarparu cyfiawnder bwyd;

2. gweithio gyda grwpiau cymunedol a phartneriaid i sefydlu partneriaeth bwyd (sefydliad dielw sy'n helpu pobl i ddysgu sut i goginio, bwyta diet iach, tyfu eu bwyd eu hunain a gwastraffu llai o fwyd); a

3. rhoi'r dasg i'r pwyllgor craffu i ymchwilio i ehangder y broblem ym Mhowys a'r hyn y gellir ei wneud i fynd i'r afael ag ef

**Cynigydd: Cynghorydd Matthew Dorrance**

**Eilydd: Cynghorydd David Meredith**

| **16.** | **CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD** |
|---|---|

16.1. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Priffyrdd, Ailgylchu ac Asedau gan y Cynghorydd Sir Bryn Davies**

Yn sgil y cyhoeddusrwydd diweddar ynglŷn â phlastig a gwastraff arall yn cael ei gludo i Asia, a allwn ni gael cadarnhad am i le mae gwastraff o'r fath o Bowys yn mynd, a sicrwydd nad oes dim ohono'n cael ei 'ddympio' ar wledydd eraill?

(Tudalennau 343 - 348)

16.2. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Priffyrdd, Ailgylchu ac Asedau gan y Cynghorydd Gareth Ratcliffe**

Gyda'r pryderon cynyddol yn genedlaethol am y ffordd mae cynghorau wedi bod yn trosglwyddo ac yn gwaredu eu casgliadau ailgylchu gyda gwastraff wedi cael ei ddarganfod heb ei ailgylchu ond mewn safleoedd tirlenwi miloedd o filltiroedd i ffwrdd mewn mannau fel Tsiena ac India. Hefyd, tynnwyd sylw at hyn gan Syr David Attenborough a'r plastig ym moroedd ein byd, mae mwy fyth o graffu ar y ffordd yr ydym yn gwaredu ein gwastraff ac yn ailgylchu ym Mhowys yn ogystal â chynghorau eraill yn y DU. Ar garreg y drws, mae pobl yn gofyn i mi sut mae Cyngor Sir Powys yn gwaredu ein deunydd ailgylchu a'r gwastraff a gasglwn. Un o'r cwestiynau sy'n cael ei godi yw a ydym yn ailgylchu ar gyfer CSP i fynd

ar drywydd ffigwr a osodwyd yn genedlaethol neu a ydym yn ailgylchu er mwyn sicrhau dyfodol ein plant. Credaf ei fod yn hanfodol bod pwrpas i'r hyn yr ydym yn ailgylchu a beth rydym yn ei ailgylchu i feithrin hyder yn y broses ac os ydym am gael trigolion i ymrwymo i'r broses hyn.

A all yr aelod portffolio briffio aelodau'r cyngor am sut mae'r cyngor yn ailgylchu ac ymhle mae deunyddiau ailgylchu'r cyngor yn cael eu prosesu er mwyn sicrhau bod ailgylchu yn golygu ailgylchu?

(Tudalennau 349 - 350)

16.3. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Priffyrdd, Ailgylchu ac Asedau gan y Cynghorydd Sir Jackie Charlton**

Mae Llangatwg a Chrughywel 4 milltir yn unig o ffin Sir Fynwy a 6 milltir o ganolfan ailgylchu a gwastraff yn y Fenni. Mae trigolion y ddwy gymuned yn defnyddio Y Fenni ar gyfer siopa, gweithgareddau diwylliannol, ymweliadau ysbyty a llawer mwy. Mae trigolion Llangatwg a Chrughywel yn gofyn yn gyson pam na allant ddefnyddio'r ganolfan ailgylchu gwastraff yn y Fenni, a fyddai'n llawer haws, yn fwy cynaliadwy ac yn gwneud synnwyr perffaith.
Mae Aberhonddu dros 15 milltir i ffwrdd (taith yn ol ac ymlaen o 30 milltir) ac i rai hyd at 25 milltir (taith yn ol ac ymlaen o 50) ond mae'n rhaid i ni fynd ag unrhyw wastraff na ellir ei gymryd yn yr ailgylchu wythnosol i'r orsaf wastraff yn Aberhonddu.

Deallaf o ofyn am y mater hwn fod Powys a Sir Fynwy yn edrych ar drefn a fyddai'n galluogi ein preswylwyr i ddefnyddio'r safle yn y Fenni. Cafodd un o'n trigolion a oedd wedi bod yn ceisio trafod gyda Sir Fynwy i fynd a'u gwastraff i'r Fenni yr ymateb canlynol: -

*"Dros amser, rydyn ni wedi defnyddio {Y Fenni} yn llai nag y gwnaethom pan symudon ni gyntaf ond oherwydd rhywfaint o waith adnewyddu tŷ yn ddiweddar rydym wedi cronni mwy o eitemau diangen, a ddoe gwnaethom lenwi cist y car gyda nhw, dim ond i ddarganfod nad oeddwn yn gallu defnyddio safle Llanfoist mwyach oherwydd ein bod yn byw ychydig y tu allan i Sir Fynyw. Felly fe wnaethom gael gair gyda swyddfa Powys y bore yma i weld ymhle mae ein cyfleuster agosaf ym Mhowys a dywedwyd wrthym mai Aberhonddu yw'r un agosaf sy'n 15 milltir i ffwrdd a'i fod ar gau heddiw ac yfory. Mae'n debyg bod y safle agosaf nesaf 40 milltir i ffwrdd yn Llandrindod a dim ond 5 (ry'n ni'n deall) o safleoedd yn yr ardal eang sydd o fewn awdurdod Powys.*
*Awgrymwyd i ni gan y clerc yn swyddfa Powys y dylem gysylltu â Sir Fynwy i weld a allem fel 'cymydog' agos gael trwydded i ddefnyddio safle Llanfoist. Er mawr syndod i ni, rydyn ni wedi cael gwybod gan glerc yn swyddfa Sir Fynwy fod Sir Fynwy wedi bod yn ceisio'n frwd i drafod trefniadau ar gyfer trigolion nad ydynt yn byw yn Sir Fynwy i ddefnyddio ei safleoedd ond hyd yn hyn mae hyn wedi cael ei wrthod (gan Bowys)".*

A allech chi fy sicrhau bod Powys yn gweithio gyda Sir Fynwy i ddod o hyd i ateb?

(Tudalennau 351 - 352)

16.4. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Priffyrdd, Ailgylchu ac Asedau gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe**

Bellach mae'r cyngor wedi bod yn rhedeg ei gasgliadau gwastraff o'r ardd am 3 mis ac mae bron i 7,000 o gasgliadau yn cael eu gwneud. Rwy'n falch o weld ei fod yn gwrando ar bryderon trigolion am gasgliadau sy'n cael eu methu ac yn adolygu'r llwybrau casglu. A all yr aelod portffolio darparu'r costau i'r gwasanaeth ynghyd a'r costau o sefydlu'r gwasanaeth a chostau parhaus ac incwm ar gyfer y gwasanaeth hwn?

(Tudalennau 353 - 354)

16.5. **Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir Lucy Roberts**

Credaf mai un o'r materion pwysicaf y dylai'r cyngor fod yn mynd i'r afael ag ef ar hyn o bryd yw Newid yn yr Hinsawdd. Dylem fod yn arwain y ffordd ac yn dangos ein hymrwymiad i'n trigolion, yn enwedig ein plant a phobl ifanc sy'n debygol o ddioddef fwyaf os nad yw ein byd yn newid. Rydym wedi ymrwymo i gael gwared ar blastig un-tro lle'n bosibl ac mae hynny'n ddechreuad, ond mae cymaint mwy y gallwn ei wneud. Un cam amlwg i'r cyfeiriad cywir fyddai i sicrhau bod pob adeilad newydd sy'n cael ei adeiladu gan y cyngor, yn cynnwys tai / fflatiau ac ysgolion yn cael eu hadeiladu i safonau carbon niwtral. Un arall fyddai i wneud yn siŵr fod pob adeilad y cyngor yn defnyddio ynni o ffynonellau cynaliadwy. A all yr arweinydd cadarnhau bod hyn eisoes yn digwydd, ac os na, a allith hi roi sicrwydd y bydd mesurau o'r fath yn cael eu cymryd yn y dyfodol. A allith hi hefyd roi ymrwymiad y bydd y cyngor yn gweithio tuag at fod yn garbon niwtral ar draws pob gwasanaeth, gan osod esiampl i gynghorau eraill, mewn da bryd cyn dyddiad terfyn Llywodraeth y DU o 2050?
(To Follow)

16.6. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Llywodraethu Corfforaethol, Tai a Gwarchod y Cyhoedd gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan**

A all yr aelod portffolio ar faterion tai gadarnhau pryd y cafodd yr holl dai o dan ei gyfrifoldeb profion PAT a pha mor aml mae hyn yn cael ei wneud, fel sy'n ofynnol yn gyfreithiol fel landlord?

(To Follow)

16.7. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Llywodraethu Corfforaethol, Tai a Gwarchod y Cyhoedd gan y Cynghorydd Sir Joy Jones**

Gyda'r datblygiad newydd yn cael ei lansio yn y Drenewydd ychydig o wythnosau yn ol a'r holl addewidion o fflatiau newydd ar y safle drws nesaf i'r clwb bowlio sydd wedi cael ei adael am gyfnod hir, mae wedi bod yn eithriadol o siomedig i glywed o fewn wythnosau bod y contractwyr wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr gan adael ardal hyll yng nghanol y

dref.

O gofio bod Dawnus wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr yn gynharach eleni a fydd yr Aelod Portffolio yn esbonio pa wiriadau a wnaed cyn penodi Jistcourt i wneud y gwaith a pham nad oedd gwarant bond banc yn ei le cyn iddynt ddechrau gwaith ar y safle? Beth fydd yn cael ei wneud i sicrhau bod mwy o wiriadau yn y dyfodol a bod gwarantau bondiau banc yn eu lle cyn i'r gwaith ddechrau?

A wnaiff yr Aelod Portffolio rhoi gwybod i'r Cyngor faint o arian a gollwyd oherwydd hyn ac am ba mor hir fydd y cynllun yn cael ei oedi?
(To Follow)

16.8. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Llywodraethu Corfforaethol, Tai a Gwarchod y Cyhoedd gan y Cynghorydd Sir David Selby**

A all yr Aelod Portffolio gadarnhau ei ymrwymiad i adeiladu 250 o dai Cyngor newydd o fewn y pum mlynedd nesaf?
(Tudalennau 355 - 356)

16.9. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Llywodraethu Corfforaethol, Tai a Gwarchod y Cyhoedd gan y Cynghorydd Sir Roger Williams**

Faint o unedau tai cymdeithasol sydd wedi cael eu cwblhau gan y Cyngor Sir ers etholiadau'r Cyngor ym Mai 2017?
(To Follow)

16.10. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Llywodraethu Corfforaethol, Tai a Gwarchod y Cyhoedd gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

A all yr Aelod Cabinet wneud datganiad am daliadau gwasanaeth a dalwyd i Gyngor Sir Powys gan denantiaid y Cyngor?
(To Follow)

16.11. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Llywodraethu Corfforaethol, Tai a Gwarchod y Cyhoedd gan y Cynghorydd Sir Huw Williams**

Mewn Asesiad Lles a gynhaliwyd gan swyddogion Powys, gwelwyd bod 16% o aelwydydd Powys yn profi tlodi tanwydd. Diffinnir hyn fel aelwyd sy'n gwario o leiaf 10% o'i incwm ar danwydd. Derbyniodd y Cyngor Rhybudd o Gynnig gan y Blaid Lafur yn 2016 yn cytuno bod yn 'rhaid iddo wneud cymaint ag y gall i helpu trigolion sy'n dioddef tlodi tanwydd i liniaru'r sefyllfa'. Hefyd, yn ddiweddar cyhoeddodd y Cynulliad Cenedlaethol ganllawiau yn amlinellu'r prif ffynonellau cyllid, a chyngor sydd ar gael i etholwyr sydd am wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi.

O ystyried y Rhybudd o Gynnig a chanllawiau Cynulliad Cymru a all yr Aelod Portffolio rhoi diweddariad ar waith cyfredol y Cyngor i fynd i'r afael â thlodi tanwydd?

(Tudalennau 357 - 360)

16.12. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Llywodraethu Corfforaethol, Tai a Gwarchod y Cyhoedd gan y Cynghorydd Sir Linda Corfield**

A fyddai'r Aelod Portffolio yn rhoi gwybod i Aelodau beth sy'n digwydd o ran symud y cynllun ECO3 newydd yn ei flaen? Mae'n dipyn o amser ers cyhoeddi'r adroddiad SWAP ar ECO2. Roedd adroddiad SWAP yn manylu ar nifer o fethiannau ECO2, a oedd wedi cael effaith mor andwyol ar fusnesau plymio lleol ym Mhowys. Ar ôl cyhoeddi adroddiad SWAP cafodd Aelodau gwybod bod gweithgor yn cael ei sefydlu i ystyried sut y byddai'r cynllun ECO3 newydd yn cael ei lunio a'i gweinyddu, fel nad oedd y mannau gwan yn ECO2 a oedd yn hawdd i fanteisio arnynt gan Asiantwyr y tu allan i Bowys yn cael eu hailadroddiad gyda'r cynllun ECO3 newydd.

(Tudalennau 361 - 362)

16.13. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Llywodraethu Corfforaethol, Tai a Gwarchod y Cyhoedd gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan**

O dan y cynllun ECO2 cymeradwyodd Powys tua 3800 o geisiadau a gyflwynwyd iddynt gan asiantwyr ECO Flex. O'r rhain, cadarnhawyd eu bod yn ymwybodol o 2048 o osodiadau a gwblhawyd. Pan oedd y cyfrifoldeb ar asiantwyr ECO Flex i hysbysu'r cyngor o osodiadau a oedd wedi'u cwblhau, pa mor debygol yw hi fod nifer o'r 1800 a gymeradwywyd ac a honnir i fod 'ar goll' wedi cael eu cwblhau, ond heb eu hysbysu fel rhai wedi'u cwblhau i'r cyngor gan asiantwyr Eco Flex a gyflogwyd i redeg y cynllun?

(To Follow)

16.14. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Llywodraethu Corfforaethol, Tai a Gwarchod y Cyhoedd gan y Cynghorydd Sir Gwilym Williams**

Os yw'r cyngor yn penderfynu parhau gyda'r ECO3 LA Flex, rwy'n deall y byddant yn defnyddio Bancio Cymunedol Robert Owen i reoli ECO3 LA Flex ym Mhowys. A yw Cyngor Sir Powys yn mynd i drosglwyddo'r cyfrifoldeb llawn ar gyfer rhedeg hwn i Robert Owen? Yn cynnwys POB cais, fetio llawn ar gyfer y ddau meini prawf cymhwysedd (tlodi tanwydd ac EPC) cyn eu cymeradwyo.
(Tudalennau 363 - 364)

16.15. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Llywodraethu Corfforaethol, Tai a Gwarchod y Cyhoedd gan y Cynghorydd Sir Amanda Jenner**

Yng ngoleuni canfyddiadau'r adroddiad ymchwiliad annibynnol i ECO2, a

allwch chi roi eich sylwadau ar y canlynol:

A allwch chi roi gwybod a oes swyddog arweiniol yn cadw mewn cysylltiad â grŵp plymio Powys ac aelodau i'w diweddaru'n uniongyrchol ar faterion a phryd y cawson nhw gysylltiad ffurfiol gyda diweddariad? Os nad oes swyddog arweiniol a ellir mynd i'r afael â hyn.

Rwy'n deall y cytunwyd yn y pwyllgor cydlynu craffu y dylid llunio gweithgor ar y cyd (gydag aelodau wedi'u dewis o bwyllgorau economaidd ac archwilio) i adolygu'r adroddiad a chynnal unrhyw waith craffu pellach sydd ei angen. Credaf fod angen eglurder ar eu rôl, er enghraifft gwersi a ddysgwyd o ECO2, camau lliniaru ar gyfer y cynllun yn y dyfodol, fetio datganiadau ymgeiswyr yn y dyfodol ac ystyriaeth o sgôp a'r diffiniad o dlodi tanwydd. Hoffwn weld sgôp / cylch gorchwyl y gweithgor.

A fydd argymhellion pwyllgor y gweithgor ar gael i grwp plymio Powys a phob cynghorydd cyn y gwneir penderfyniad ar ECO2? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a fydd ECO3 yn mynd yn ei flaen neu beidio a'r newidiadau i'r ffordd mae'n cael ei roi ar waith/ gweithredu yn dilyn y pryderon a godwyd gydag ECO2?
(To Follow)

16.16. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Priffyrdd, Ailgylchu ac Asedau gan y Cynghorydd Sir Jackie Charlton**

Rwy'n deall y problemau dros y blynyddoedd diwethaf gyda Gorchmynion Traffig y Ffyrdd. Erbyn hyn mae ôl-groniad sy'n edrych yn anghynaladwy ac na ellir ei reoli. A allech chi, fel yr Aelod Cabinet, roi rhywfaint o hyder i aelodau ac i drigolion bod Gorchmynion Traffig y Ffyrdd hanfodol yn nhermau lleihau cyflymder mewn ardaloedd a ddylai fod yn 30 mya yn hytrach na'r 60 mya yn eu lle mewn ardaloedd preswyl?

(Tudalennau 365 - 366)

16.17. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Priffyrdd, Ailgylchu ac Asedau gan y Cynghorydd Sir Pete Roberts**

Er gwaethaf llwyddiant taith menywod OVO, mae'n anarferol i weld mwy nag un neu ddau o feiciau yn y rheseli beiciau yn neuadd y sir.

Pa gyfleusterau sydd ar gael i staff yn swyddfeydd y cyngor i wneud teithio llesol yn fwy atyniadol i staff y cyngor a sut y gellir ehangu'r rhain yn y dyfodol ar gyfer swyddogion ac aelodau o'r cyhoedd sy'n seiclo i'r gwaith yn ein trefi teithio llesol dynodedig?
(Tudalennau 367 - 368)

16.18. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Llywodraethu Corfforaethol, Tai a Gwarchod y Cyhoedd gan y Cynghorydd Sir Jeremy Pugh**

A allwch chi ddweud wrthyf faint o setliadau, cytundebau peidio â datgelu a chytundebau cyfaddawdu sydd wedi'u gwneud gan y Cyngor dros y ddwy flynedd ddiwethaf?
(Tudalennau 369 - 370)

16.19. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Cyllid, Cefn Gwlad a Thrafnidiaeth gan y Cynghorydd Sir Gwilym Williams**

Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro yn y cyngor llawn y byddai ailstrwythuro uwch reolwyr yn arbed tua £1 miliwn. Deallaf nad yw'r swm hwn wedi'i arbed. A all yr aelod portffolio rhoi'r ffigwr i mi o'r arbedion o uwch reolwyr.
(Tudalennau 371 - 372)

16.20. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Cyllid, Cefn Gwlad a Thrafnidiaeth gan y Cynghorydd Sir Pete Roberts**

Yn y cyfarfod diweddar am drefniadau wrth gefn ar gyfer Brexit, awgrymais y dylai'r cyngor ystyried cefnogi'r farchnad "wyn ysgafn" pe bai Brexit dim bargen yn digwydd trwy roi cynlluniau yn eu lle i gynyddu ei ddefnydd o fewn ein hysgolion a gwasanaethau gofal. Cytunodd yr Arweinydd a dywedodd y byddai hyn yn cael ei ddatblygu trwy gaffael.

A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi'i wneud ers y cyfarfod hwn a pha gynlluniau a rhwystrau i wneud hyn sydd bellach ar waith neu sy'n cael eu datrys?

(To Follow)

16.21. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Cyllid, Cefn Gwlad a Thrafnidiaeth gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

A all yr Aelod Cabinet rhoi manylion am unrhyw gyfraniadau a wnaed gan Wasanaethau Eiddo Calon Cymru Cyf i gyllideb y Cyngor?

(To Follow)

**Bydd yr eitem ganlynol am 2.00 p.m.**

| 17. | CYFLWYNIAD GAN Y PRIF SWYDDOG TÂN |
|---|---|

Cyflwyniad gan y Prif Swyddog Tân, Chris Davies.